Diweddariad i Aelodau Llais y Goedwig
Rhif 12 - Gorffennaf 2011

Cynnwys:

- Maniffesto Llais y Goedwig ar gyfer Coedwigoedd Cymreig
- Digwyddiad Rhannu Sgiliau Llais y Goedwig - Hydref 2011
- Rhoi cyfweliadau ar ran Llais y Goedwig - allwch chi ein cynorthwyo?
- Mae Llais y Goedwig ar Facebook a twitter
- Defnyddiau Hyrwyddo LlyG
- Llais y Goedwig yn codi allan
- Ffilmiau Coedwig Rhyngwladol
- Holiadur ar ddyfodol coedwigoedd Lloegr
- Coed Cadw yn chwilio am grwpiau cymunedol i brydlesu coedwigoedd
- Digwyddiadau Coetir a chyrsiau
- Adroddiadau Newydd
- Coedwigoedd y Byd - Wythnos Ymwybyddiaeth Ieuenctid Hydref 2011
- Newyddion am Ariannu
- Hoffech chi blannu coed?
- Slip archebu i'w rwygo ymaith

Maniffesto Llais y Goedwig ar gyfer Coedwigoedd Cymreig

Un rheswm dros ffurfio LlyG oedd er mwyn lleisio barn grwpiau coetir cymunedol gyda gwneuthurwyr polisi .. pam? Oherwydd bod polisi'r llywodraeth yn rhoi pwrpas i goedwigoedd a gweledigaeth am sut y gallant wasanaethu'r genedl. Yn sgil hyn daw pwrpas i grantiau coedwigaeth; pa rywogaethau a ddewisir i'w plannu; i ba raddau mae pobol leol yn cymryd rhan yn y gwaith o reoli coedwigoedd Llywodraeth Cymru; a oes modd i goedwigoedd y Comisiwn Coedwigaeth gael eu gwerthu ac ati. Mae LlyG yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgorau polisi ac mae hefyd yn brif bartner ar gyfer cyflawni'r 4 Cam yn strategaeth Coetiroedd Cymru. Fodd bynnag, mae llawer o'r hyn yr ydym wedi'i ddweud yn y maes wedi bod yn adweithiol – o berspectif coetir cymunedol y rhoddwn atebion i gwestiynau a ofynnir gan wneuthurwyr polisi. Petai gennym ddatganiad clir am sut y gallai'r coedwigoedd wasanaethu anghenion pobl Cymru - buasem mewn gwell sefyllfa i fod yn rhagweithiol a gofyn am gymorth i'n galluogi i wireddu hynny. Mae'n gyfnod ansicr i Lywodraeth Cymru sydd â phwerau deddfwriaethol newydd; trafodir y posibilrwydd o uno Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd; mae anniddigrwydd ynglŷn â'r coedwigoedd cyhoeddus a werthir yn Lloegr rhag ofn i hyn ymledu dros y ffin gyda llywodraeth newydd. Yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mawrth gofynnodd yr aelodaeth i swyddogion LlyG greu maniffesto a fyddai'n cynrychioli anghenion defnyddwyr coetiroedd cymunedol Cymru. Dyma amser ardderchog i Lais y Goedwig gyflwyno maniffesto ei hun er mwyn adfywio'r cyswllt rhwng pobl a choedwigoedd Cymru.

Rydym angen llawer o syniadau gan lawer o bobl i wneud y maniffesto'n un o werth gwirioneddol yn seiliedig ar weledigaeth ysbrydoledig ac uchelgeisiol am goedwigoedd ar gyfer anghenion pobl Cymru.
Bydd mwy o fanylion mewn diweddariad arbennig yn fuan iawn.

Digwyddiad Rhannu Sgiliau Llais y Goedwig - Hydref 2011

Diwrnod anffurfiol fydd y ddigwyddiad hwn i'w gynnal yng nghanol mis Hydref yng nghoetir un o'r aelodau- Coppicewood College. Dylai fod yn gyfle gwych i gwrdd ag aelodau hen a newydd, rhannu syniadau a sgiliau ac ymweld â rhai coedwigoedd gweithredol. Bydd mwy o fanylion mewn diweddariad arbennig yn fuan iawn!
Mae croeso i chi gysylltu â Jo i rannu eich syniadau neu fynegi eich awydd i ddod jo.cooper@llaisygoedwig.org.uk 01654 700061.

Rhoi cyfweliadau ar ran Llais y Goedwig - allwch chi ein cynorthwyo?

O bryd i'w gilydd (yn enwedig pan fo digwyddiad wedi ei drefnu), mae'r cyfryngau'n cysylltu â Llais y Goedwig i gael cyfweliadau – gan amlaf gyda phobl sy'n gweithio yn y goedwig. Os yw hyn yn rhywbeth y gallech chi ei wneud i'n cynorthwyo, ac yn enwedig os ydych yn medru siarad Cymraeg, yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Nid oes rhaid i chi wybod cymaint â hynny am y sefydliad, a dim ond am bynciau y teimlwch yn gyfforddus gyda hwy y byddech yn sgwrsio, neu gallem eich rhoi ar ben ffordd ymlaen llaw. Rydym yn ceisio llunio rhestr o bobl posib er mwyn cael ystod eang o brofiad, felly mae croeso i chi gysylltu â ni os gallwch ein helpu.

Mae Llais y Goedwig ar Facebook a twitter

Peidiwch â phoeni os nad ydych yn defnyddio'r safleoedd yma – fydd dim byd yn cael ei bostio yno os nad yw hefyd ar gael ar y safle we, neu'r diweddariadau hyn. Os ydych yn eu defnyddio, yna dilynwch neu ymunwch â ni gan ei fod yn ddull defnyddiol o ledaenu'r gair am yr hyn sy'n digwydd ym myd grwpiau coetir cymunedol Cymreig, ac wrth gwrs gall fod yn gynt na disgwyl am ddiweddariad. Mae croeso i chi gymryd rhan ym mha bynnag iaith y dewiswch (y Gymraeg neu'r Saesneg) yn y fforymau hyn.

Tudalen Facebook: http://www.facebook.com/pages/Llais-y-Goedwig/210634548981172

Grŵp Facebook http://www.facebook.com/groups/223690894328205?ap=1

I ddilyn Llais y Goedwig ar Twitter: @Llais_yGoedwig

Defnyddiau Hyrwyddo LlyG

Beth yw Llais y Goedwig a beth mae'n ei wneud i gefnogi grwpiau coetir cymunedol? Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi paratoi cyfres o daflenni am ffiniau'r rhwydwaith a'r cymorth mae Llais y Goedwig yn ei ddarparu. Mae'n werth cael golwg ar y rhain os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut y gallai Llais y Goedwig weithio gyda'ch grŵp neu eich sefydliad chi. Gobeithiwn y gwelwch hyn yn ddefnyddiol:

- Beth y gallwn ei wneud i grwpiau coetir cymunedol
- Beth y gallwn ei wneud ar gyfer awdurdodau lleol
- Beth y gallwn ei wneud ... cyhoeddiadau
- Beth y gallwn ei wneud ....gwefan ...
- Beth y gallwn ei wneud ... darllenydd newid yn yr hinsawdd

Mae'r rhain i gyd ar gael fel ffeiliau pdf i'w lawrlwytho o'r wefan
http://llaisygoedwig.org.uk/what-we-do/

Mae Jo hefyd yn hapus i lunio pecynnau hyrwyddo a fyddai'n cynnwys nifer o gopïau o'r taflenni a phentwr o gardiau post i chi i ledaenu'r neges am Llais y Goedwig. Cofiwch gysylltu â Jo, os byddwch yn mynychu unrhyw ddigwyddiadau lle gallech ddosbarthu taflenni. jo.cooper@llaisygoedwig.org.uk

Llais y Goedwig yn codi allan

Sioe Frenhinol Cymru - Bydd Llais y Goedwig yma ddydd Llun a dydd Mawrth 18 a'r 19eg - dewch draw am sgwrs neu i gael taflenni!

Diwrnod agored Moelyci – Cynhaliwyd ar y 3ydd o Orffennaf - diwrnod heulog iawn. Roedd yno ystod eang o stondinau, arddangosiadau ac adloniant. Popeth o waith coed gwyrdd i gwrs rhwystrau defaid.

Ffilmiau Coedwig Rhyngwladol

Ar ôl y diddordeb a ddangoswyd yn ffilmiau Gŵyl Ryngwladol Ffilmiau Coedwig, a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn yn Jackson Hole yn yr UD, cafodd Llais y Goedwig afael ar10 awr o ffilmiau o'r ŵyl, a chytundeb yn ein caniatau i'w rhyddhau i grwpiau sy'n aelodau. Os hoffech weld y ffilmiau neu gynnal dangosiadau cyhoeddus yna cysylltwch ag Adam Thorogood: adamthorogood@llaisygoedwig.co.uk. Fel arall, chwiliwch am ddangosiadau yn eich ardal.

Holiadur ar ddyfodol coedwigoedd Lloegr

Yn dilyn ymgyrch llwyddiannus 38 ° i atal gwerthiant coedwigoedd cyhoeddus, sefydlwyd panel llywodraeth i edrych ar ddyfodol coedwigoedd - 5 cwestiwn y gallwch eu hateb yn y ddolen hon: https://secure.38degrees.org.uk/forests-panel

Coed Cadw yn chwilio am grwpiau cymunedol i brydlesu coedwigoedd

Mae gan Coed Cadw nifer o goetiroedd yng Nghymru y dymunant eu prydlesu i grwpiau / pobl sydd â diddordeb. Y tebygrwydd yw y bydd y coetiroedd yn cael eu gosod am rent nominal / rhad am gyfnod o 25 mlynedd ac mae gan bob un gynllun rheoli erbyn hyn. Dyma'r coedwigoedd a gynigir ar hyn o bryd:

Coedwig	Maint (ha)	Lleoliad
Coed Aber Eden	2.5	Ganllwyd, Dolgellau, Gwynedd
Coed Dolyronnen	3.12	Tal y Wern, Machynlleth, Powys
Coed Friog	3.01	Y Friog, Gwynedd
Coed Pwllgwyn	2.36	Afonwen, Caerwys, Sir y Fflint
Coed Tan y Bryn	1.16	Garndolbenmaen, Gwynedd
Coed Tyddyn Halen	2.86	Ysceifiog, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint
Coed y Glyn	1.26	Tremeirchion, Sir Ddinbych
Sheila's Peace	0.28	St Ismael, Sir Benfro
CoedwigTrafalgar	0.4	Porthcawl, Morgannwg Ganol, Pen-y-bont ar Ogwr
Coed Tyddyn Badyn	3.14	Pentir, ger Bangor, Gwynedd

Gellir cael mwy o wybodaeth am bob coedwig gan gynnwys y cynlluniau rheoli yn:

http://www.woodlandtrust.org.uk/en/our-woods/Pages/woodland-trust-woods.aspx#.ThxX-2GmTTr

Bydd safleoedd eraill yn cael eu hystyried ac, os ydych chi, neu'n gwybod am grŵp sy'n awyddus i ymgymryd â safle, yna cysylltwch â Choed Cadw – efallai y bydd modd iddyn nhw gael hyd i rywbeth addas ar eich cyfer.
Am fwy o fanylion neu i fynegi diddordeb cysylltwch â Julie Jenkins. Ffôn: 08452 935794 neu e-bostiwch: juliejenkins@woodlandtrust.org.uk

Digwyddiadau Coetir a chyrsiau

Isod mae detholiad o ddigwyddiadau mewn coetiroedd cymunedol a'r sector coetir ar hyd a lled Cymru – welwch chi eich un chi yma? Cysylltwch a gadewch i ni wybod beth rydych chi'n ei wneud, a gallwn roi manylion ar ein gwefan ac yn y diweddariad nesaf. Trwy rwydwaith yr aelodau, mae'r wybodaeth yma'n cyrraedd cynulleidfa bosib o 2000. Os dymunwch gael eich hatgoffa bythefnos cyn y dyddiad cau gofynnwch i Jo eich rhoi ar y rhestr atgoffa.

Gall adnoddau coetir cymunedol a thaflenni hyrwyddo hefyd gael eu darparu ar gyfer eich digwyddiad - gweler y nodyn isod am beth sydd ar gael a chysylltwch â Jo i archebu copïau.

Mae aelodau o fwrdd Llais y Goedwig yn dod o goetiroedd cymunedol ledled Cymru, felly mae modd i un neu fwy ohonom ddod i gefnogi eich digwyddiadau yr haf yma. Dyma gyfleoedd gwych i ddatblygu ein rhwydwaith, i gwrdd ag aelodau presennol a newydd, ac i chi ddweud wrthym ni beth y gall Llais y Goedwig ei wneud i chi ar ffurf cefnogaeth, cyngor neu arweiniad. Os yw eich grŵp yn cynnal unrhyw ddigwyddiadau yn ystod yr haf yma, rhowch wybod i ni. Gallwn hefyd ledaenu'r newyddion yn ein diweddariadau ac ar wefan Llais y Goedwig.

Ymddiriedolaeth Genedlaethol - Diwrnod Agored Glan Faenol
29 Gorffennaf 2011
1-6 yp
Mynediad AM DDIM
Ffon 07748 983016 / plasnewydd@nationaltrust.org.uk
Directions: A55 Cyffordd 9 (Ysbyty Gwynedd), 'Parc Menai'

Cyrsiau / hyfforddiant

- **Natur - Cwrs Troseddau Bywyd Gwyllt**
  Dydd Mercher, Gorffennaf 20fed 2011, 10am-4pm Parc Gwledig Llyn Llech Owain ger Crosshands.Gwelwch **POSTER** am mwy o fanylion. I gael gwybodaeth bellach/ffurflen fwcio cysylltwch â chloe@natur.org.uk

- **Sesiynau galw i mewn - gwaith coed gwyrdd - am ddim**

  Mae Mike Bithell, o grŵp Coedlan Moelyci, fel arfer yn rhedeg sesiwn galw i mewn am ddim i wneud sgiliau gwaith coed gwyrdd o 10 o'r gloch ar ddydd Sul. Cyflenwir offer, dewch â'ch ysbrydoliaeth efo chi. Mae'n agored i bawb, ond gwell ffonio yn gyntaf i sicrhau y bydd yno- 01248 602397.

- **Mae'r Ganolfan Dechnoleg Amgen** hefyd yn cynnal cyrsiau coetir a chrefft gweler y ddolen hon am fwy o fanylion.
  http://www2.cat.org.uk/shortcourses/index.php?cPath=6&osCsid=61c21a0edd37b8ed976f00ca197b52b4

- **Coleg Coppicewood** - wedi eu lleoli yn Sir Benfro
  * Gwaith Coed Gwyrdd 4 diwrnod o ddydd Llun 15fed Awst £160
  * Turnio Polion Sadwrn / Sul Awst 27ain/28ain £100

* Cwrs Sgiliau Coetir sy'n rhedeg dydd Mercher a dydd Iau am 6 mis o ddydd Mercher 28ain o Fedi
Ymholiadau i Bruce yn coppicewood01@aol.com
http://coppicewoodcollege.co.uk

- Mae **Canolfan Sgiliau Coetir** – yn rhedeg ystod eang o gyrsiau rheoli coetiroedd a chrefft trwy gydol y flwyddyn yn eu canolfan ger Dinbych, yn ogystal â Diwrnodau, Penwythnosau ac Wythnosau Coetir i'r Teulu, a chyrsiau Byw yn y gwyllt - gweler http://www.woodlandskillscentre.co.uk/

  Ar gyfer ymholiadau cysylltwch â Rod: enquiries@bodfari-charcoal.co.uk

- **Cyrsiau Pladur Rhagarweiniol Un Dydd gan Ymddiriedolaeth Fferm ParAmaeth Dyfed**
  Popeth yr ydych angen ei wybod ar gyfer dechrau defnyddio cryman!
  Dydd Sadwrn 13 Awst 10:00-4:00 Cost £40
  I archebu lle e-bostiwch scythecymru@yahoo.co.uk neu ffoniwch Michelle ar 07813 464990

- **Hyfforddi'r hyfforddwr**
  21 a 22 Gorffennaf 2011, Caerdydd
  Mae'r cwrs yr addas ar gyfer pobl y mae darparu hyfforddiant yn newydd iddynt, ac mae'n cyflwyno sgiliau hyfforddi. Mae'r cwrs yn cynnwys: dynodi anghenion hyfforddi; ysgrifennu nodau ac amcanion; cynllunio cwrs hyfforddi; cyflwyno gwybodaeth; dulliau hyfforddi; delio gydag anawsterau mewn grwpiau; asesu ac arfarnu syml. Ceir mwy o fanylion gan NewLink Cymru, ffôn 029 2052 9002, e-bost info@newlinkwales.org.uk

Adroddiadau Newydd

Datganiad materion Llywodraeth Cymru ar Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol
Cyhoeddodd John Griffiths, Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy y datganiad canlynol ar strategaeth amgylcheddol LIC. Datganiad Ysgrifenedig - Ar fframwaith yr amgylchedd naturiol, 'cymru fyw'

Lansio Adroddiad Asesiad Ecosystem Cenedlaethol y DU Yn ôl adroddiad bwysig a lansiwyd y mis diwethaf, mae parciau, llynnoedd, coedwigoedd a bywyd gwyllt y DU yn werth biliynau o bunnoedd i'r economi. Asesiad Ecosystem Cenedlaethol y DU (UK NEA) yw'r dadansoddiad cyntaf o amgylchedd naturiol y DU o ran y buddion mae'n ei roi i gymdeithas a ffyniant economaidd parhaus. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan NEA http://uknea.unep-wcmc.org

Coedwigoedd y Byd - Wythnos Ymwybyddiaeth Ieuenctid Hydref 2011

Ydych chi'n gwybod am sefydliadau amgylcheddol pobl ifanc a grwpiau o'r DU a fyddai â diddordeb mewn trefnu digwyddiad coedwig ar gyfer pobl ifanc ym mis Hydref eleni? Mae *Look East Wild Earth* (LEWE), elusen fechan yn y DU sy'n hyrwyddo cysylltiadau â Dwyrain Ewrop, a *Youth and Environment Europe* (YEE) yn chwilio am fudiadau pobl ifanc i fod yn bartneriaid ar gyfer cyfrannu at Flwyddyn ryngwladol y Goedwig y Cenhedloedd Unedig.

Mae cyllid o rhwng £100 a £1000 ar gael (yn dibynnu ar beth yn union y bwriadwch ei wneud) trefnu darlithoedd, dangosiadau ffilm, digwyddiadau a gweithdai yn ymwneud â'r

goedwig, gwefan yn llawn gwybodaeth am goedwigoedd - rhai lleol a byd-eang. I fynegi diddordeb mewn bod yn bartner lleol ar y prosiect hwn a / neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Katy Harris katy@lookeast.org.uk (01970 610104) or Gemma Tracey yee@lookeast.org.uk

Newyddion am Ariannu

Rydym ar fin lansio cronfa ddata ariannu newydd ar y wefan i aelodau yn unig. Bydd ynddi restrau cynhwysfawr a diweddar o wahanol fathau o gronfeydd gan ddarparu fforwm i aelodau rannu eu profiadau codi arian. Cadwch olwg am fflach newyddion pan gaiff ei lansio rhywbryd ddechrau mis Awst.

Yn y cyfamser – dyma'r newyddion diweddaraf:

Cymorth am ddim i sefydliadau gwledig
Mae Fforwm Gwledig Cymru wedi cynhyrchu taflen sy'n amlinellu'r cymorth sydd ar gael am ddim i grwpiau cymunedol mewn ardaloedd Amcan 1. Gall yr Adnodd Gwledig gynnig cymorth TG, cymorth gyda digwyddiadau a chefnogaeth gyffredinol. Am fwy o wybodaeth ewch i http://digbig.com/4xnht
(CCC, Mai 2011)

Prosiect Cyllid Cynaliadwy
Mae'r Prosiect Cyllid Cynaliadwy wedi cyhoeddi chwe chanllaw ariannu wedi'u hanelu at fudiadau cymunedol neu wirfoddol bach a chanolig eu maint a'r bobl sy'n gweithio gyda hwy er mwyn codi arian. Mae'r canllawiau'n ymwneud â'r pynciau canlynol: cyllid cynaliadwy; rheolaeth ariannol; masnachu a chodi arian; caffael a chontractio; a chyllid benthyciadau. Gellir eu llwytho i lawr am ddim fel ffeiliau PDF o: http://digbig.com/5bapcc

Cronfa'r Loteri Fawr yn cyhoeddi'r Gronfa Mileniwm Nawr
Mae Cronfa'r Loteri Fawr wedi cyhoeddi y bydd yn lansio rhaglen gwerth £11 miliwn i'w fuddsoddi mewn pum prosiect a ddewisir gan y cyhoedd. Cyhoeddwyd hyn gan Brif Weithredwr y Gronfa, Peter Wanless, a hynny'n rhan o adroddiad a oedd yn adolygu effaith economaidd a chymdeithasol cynlluniau a noddir gan Gomisiwn y Mileniwm. I gael gwybod rhagor, cyfeirir pobl sydd â diddordeb at wefan Mileniwm Nawr
(Ffynhonnell: Newyddion Grantfinder, 13/5/11)

Gwobrau Cysylltiadau Cymunedol BT
Mae cynllun Cysylltiadau Cymunedol BT wedi agor am ail rownd yn 2011. Nod y cynllun gwobrau yw rhoi cyfarpar TG a mynediad rhyngrwyd i grwpiau gwirfoddol a mudiadau elusennol sy'n gweithio er lles y gymuned yn y DU. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn gliniadur a chysylltiad rhyngrwyd a band eang am ddim am flwyddyn. Mae'r cynllun yn hynod awyddus i dargedu ardaloedd difreintiedig nad ydynt yn derbyn llawer o gyllid, neu ddim cyllid o gwbl fel arfer, ac na fyddent yn cael unrhyw ddarpariaeth TG fel arall. Y dyddiad cau yw 15 Medi 2011. (Ffynhonnell: Bwletin Grantfinder, 09.06.11)

Amgylchedd Cymru: Cynllun Grantiau Cefnogi Byw yn Gynaliadwy
Lansiwyd y cynllun grantiau Cefnogi Byw yn Gynaliadwy yn ddiweddar ac mae'n gynllun grant sydd newydd ei gomisiynu ac sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Amgylchedd Cymru a fydd y rhoi'r cynllun newydd arloesol hwn ar waith, ar y cyd â phartner craidd newydd y fenter, Cynnal Cymru.

Bydd y cynllun yn cefnogi prosiectau a fydd yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru – neu adeiladu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd – drwy fynd i'r afael ag ymddygiad penodol neu ddewisiadau o ran ffordd o fyw. Drwy'r prosiectau arloesol hyn, rhagwelir y bydd dinasyddion Cymru yn cael eu grymuso i wneud newidiadau er mwyn sicrhau ffordd fwy cynaliadwy o fyw.

Gwerth y cynllun yw £250,000 a bydd ar gael i bob sector yng Nghymru. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r ceisiadau am grant yn amrywio rhwng £5,000 a £15,000. Fodd bynnag dan amgylchiadau eithriadol gall y ffigur hwn godi i hyd at £35,000.

Bydd gwybodaeth am y cynllun newydd ar gael drwy Amgylchedd Cymru ar 02920 431727 neu info@environment-wales.org. Ceir cyfleoedd eraill hefyd yn nes ymlaen yn y flwyddyn i ddysgu mwy am y cynllun a sut gall Amgylchedd Cymru helpu i ddatblygu'ch prosiect.

Hoffech chi blannu coed?

Pecynnau coed am ddim gan Coed Cadw
Mae pecynnau o 125 neu 400 o goed brodorol ar gael i'w rhoi i grwpiau cymunedol. Efallai y gallech ddefnyddio gwerth y pecynnau hyn fel arian cyfatebol yn eich ceisiadau am grantiau.

30ain o Fedi yw dyddiad cau'r ceisiadau ar gyfer pecynnau i'w plannu yn hydref 2011. Mae'r pecynnau am ddim i grwpiau cymunedol. Os bydd gordanysgrifio caiff y cais ei gyflwyno yn ystod gwanwyn 2012. Bydd pecynnau thema Coedwigoedd Jiwbilî ar gael yn 2012 i ddathlu Jiwbilî Diemwnt y Frenhines. Gweler y daflen hon am ragor o fanylion.

Manylion llawn ar gael ar-lein (1) a rhaid i grwpiau wneud cais gan ddefnyddio ffurflen ar-lein:

Darparir cymorth ymgynghorol gan ein gwirfoddolwyr os oes angen.
Mae'r coed yn tarddu o'r DU, ond ni fedrwn warantu tarddiad "lleol", gan nad ydynt bellach yn meddwl bod mynnu tarddiad lleol yn ddymunol. Darllenwch y papur ar ein safiad (2) ar darddiad coed i gael mwy o gefndir.

Cyngor ariannu a gynigir ar gyfer plannu ar safleoedd mwy
Dylai unrhyw grŵp sydd angen cymorth gyda phlannu coed brodorol ar safleoedd mwy (500 o goed, neu ½ ha+) ffonio ein llinell gymorth MOREwoods ar 0845 293 5689 gyda manylion, a gallwn roi cyngor ar blannu a manylion am ddewisiadau ariannu. (Cliciwch ar dab Cymru neu Cymraeg ac yna sgroliwch i lawr y dudalen i weld cynnwys penodol i Gymru)

Os oes unrhyw grŵp angen cymorth ymgynghorol neu ariannol arall - gyda phlannu coetiroedd brodorol newydd, ffoniwch ein llinell gynghori 0845 293 5689. Mae grantiau ardderchog ar gael ar gyfer plannu newydd mewn llecynnau sydd dros chwarter hectar.

Prosiect PLANNU!
Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am safleoedd i blannu coeden ar gyfer pob plentyn a enir yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae ganddynt 3 ardal darged - Gorllewin Cymru, Canolbarth Cymru ac Arfordir Gogledd Cymru. Mae potensial i ariannu safleoedd addas yn gyfan gwbl.
Os oes gan unrhyw grŵp wybodaeth am safle posibl, cysylltwch â jerrylangford@woodlandtrust.org.uk
Rhaid i safleoedd fod yn weddol fawr (dyweder 5 ha +) gyda mynediad hawdd i'r cyhoedd.
Rhoddir ffafriaeth i safleoedd sy'n eiddo i gymunedau neu awdurdodau lleol.

FreeTree
Mae FreeTree yn darparu coed collddail a llydanddail neu goed ffrwythau / cnau am ddim i unigolion, grwpiau cymunedol ac ysgolion neu sefydliadau addysgol eraill, i'w plannu yn eu gerddi, mewn gofod cymunedol neu goetiroedd.
Ewch i www.freetree.info.

Lansio Cynllun* Grantiau *Creu Coetiroedd Glastir
Nod Cynllun newydd Creu Coetiroedd Glastir yw helpu i gefnogi'r ymroddiad i greu mwy o goetiroedd brodorol a chymysg, fel sydd wedi'i ddatgan yn Coetiroedd i Gymru, strategaeth coetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n elfen benodol o Glastir, cynllun rheoli tir

cynaliadwy newydd Cymru, ac mae'n cynnig grantiau i berchnogion tir, yn enwedig ffermwyr, i greu coetiroedd newydd ar eu tir.

Bydd tri math o grant ar gael i bob perchennog tir yng Nghymru – grantiau sefydlu coetiroedd, grantiau ffensio a grantiau premiwm ar gyfer creu coetiroedd. Y grant mwyaf fydd ar gael fydd £10,000 ar gyfer pob hectar yn ystod y 15 mlynedd o daliadau. Darperir grantiau ffensio gwerth £3.15 y metr pan fo angen. Gall y grantiau gefnogi costau creu coetiroedd newydd yn ogystal â 'thaliadau ildio incwm' am dynnu tir allan o amaethyddiaeth. Gall unrhyw berchnogion tir yng Nghymru wneud cais, pa un ai ydynt yn ffermwyr ai peidio. Gellir cyflwyno cais ar unrhyw adeg. www.forestry.gov.uk/forestry/infd-6j2gxd.

Mae Llais y Goedwig yn gymdeithas wirfoddol o grwpiau coedlannau cymunedol a ffurfiwyd ym mis Tachwedd 2009 i ddarparu llais ar gyfer coedlannau cymunedol. Dymunwn rannu profiadau, cefnogi ein gilydd a gwella coedlannau lleol er budd pobl Cymru.

Cysylltwch â ni
Llais y Goedwig
Uned 6, Parc Eco Dyfi
Machynlleth, Powys
SY20 8AX
Ffôn: 0845 456 0342
www.llaisygoedwig.org.uk

INTERNATIONAL YEAR OF FORESTS • 2011

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Slip archebu i'w rwygo ymaith

Dychwelwch y slip hwn at Jo yn Uned 6 gyda siec yn daladwy i "Llais y Goedwig" ac fe anfonwn y nwyddau atoch.

Enw:

Cyfeiriad:

Grŵp:

	Pris	Nifer (a'r maint os yn gymwys)	Cyfanswm
Tanysgrifiad blynyddol o gyhoeddiadau printiedig	**£20**		
Darllenydd Newid Hinsawdd ar ffon USB	**£10**		
Crys-T – steil dynion	**£10**		
Crys-T – steil merched	**£10**		
Ychwanegwch y tâl postio:			
Darllenydd Newid Hinsawdd	**50c**		
Crys(au)-T	**£2.50**		
CYFANSWM:			